CANOLFAN IAITH CYMRAEG I OEDOLION

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp ddydd Gwener, Medi 8 am 1.00 p.m. yn yr Ysgol Dysgu Gydol Oes, Llanelwy.

Presennol: Meri Huws (Cadeirydd); Haydn Edwards (Coleg Menai); Huw Evans (Llandrillo); Steve Smith (Iâl); Verona Pritchard-Jones (Canolfan Iaith); Jim O'Rourke (Nant Gwrtheyrn); Elen Wyn Thomas (Nant Gwrtheyrn); Fred Cunningham (Llysfasi); Gwenan Owen (Llysfasi); Ian Dickson (Glannau Dyfrdwy); Diane Martin (Glannau Dyfrdwy); Andrew Parry (NEWI); Trefor Owen (Coleg Harlech/WEA); Ian Rees(Coleg Meirion Dwyfor); Nerys Hague (Ysgrifennydd)

Hefyd yn bresennol: Ifor Gruffydd

Ymddiheuriadau: Merfyn Jones (PCB); Ioan Talfryn (Canolfan Iaith); Pam Evans Hughes (NEWI)

Gweithredu

1. **CROESO A CHYFLWYNIAD**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a rhoddodd groeso cynnes ar ran y Grŵp i Mr Ifor Gruffydd a fydd yn cychwyn yn ei swydd fel Cyfarwyddwr y Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru ar Dachwedd 1 2006.

2. **FFRAMWAITH GWEITHREDU**

(i) **Grŵp Strategaeth a Grŵp Darparwyr**
Cytunwyd y byddai'r Grŵp Strategaeth yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn:

Tachwedd 28 2006, 10.00 a.m. PCB (i gyd-fynd ag ymweliad Ann Jenkins)
Mawrth 28 2007, 10.00 a.m. PCB
Mehefin 27 2007, 10.00 a.m. NEWI/Iâl

Y Grŵp Darparwyr i gyfarfod chwe gwaith y flwyddyn.

(ii) **Staffio**
Penodwyd Mr Haydn Hughes yn Swyddog Sicrhau Ansawdd, a bydd yn dechrau ar Ragfyr 1 2006 ar secondiad o'r Ysgol Dysgu Gydol Oes, PCB.
Adroddodd MH na fu'n bosib penodi i'r ddwy swydd Swyddog

Datblygu. Bydd y swyddi'n cael eu hail-hysbysebu cyn gynted ag y bo modd ar ôl newid y disgrifiad-swydd ryw ychydig. Mae'r holl ymgeiswyr wedi cael gwybod am y penderfyniad.

(iii) **Swydd Eisteddfod Sir Fflint 2007**

Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu yn ystod y pythefnos nesaf. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai unrhyw un o'r grŵp yn hoffi cynnig swyddfa i'r ymgeisydd llwyddiannus gan nad oedd y lleoliad gwaith wedi cael ei benderfynu eto. Mynegodd Coleg Glannau Dyfrdwy ddymuniad i'r swydd gael ei lleoli yno.

(iii) **Llythyr Awst 29**

Para. 2 Cadarnhawyd bod Pwyllgor Darparwyr wedi cael ei greu.

Para. 3 Cadarnhawyd y bydd cynllun strategol tair blynedd yn ei le erbyn diwedd Tachwedd.

Adroddodd IG efallai y bydd yn amhosib llunio cynllun strategol cynhwysfawr erbyn diwedd Tachwedd.

Cytunwyd y byddai pob sefydliad yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i'r Cyfarwyddwr:

(a) Beth yw eu barn ynghylch eu cryfderau a'u gwendidau
(b) Unrhyw wybodaeth y gallant fod wedi ei llunio ar gyfer 'Learn Direct'
(c) Unrhyw Gynllun Strategol a all fod ganddynt ar ffeil

Cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei anfon at Ann Jenkins yn rhoi gwybod iddi am bryderon y pwyllgor. Bydd y llythyr drafft yn cael ei gylchredeg i aelodau i gael eu sylwadau.

Para. 8 Cyllideb. Hyfforddiant. Mae swyddog eisoes wedi cael ei benodi felly bydd yn bosib datblygu hyn. Nid oes cynifer o diwtoriaid llawn-amser yn y Gogledd ag yn y De.

Adroddodd IG fod y Cynulliad wedi cadarnhau y byddai'r contract gyda 'Learn Direct' yn rhedeg am ddwy flynedd arall.

GWEITHGOR DARPARWYR

4. Cytunwyd y byddai'r cofnodion o'r cyfarfodydd Darparwyr yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd y Grŵp Strategol.

Roedd pwyntiau allweddol yn y cofnodion yn cynnwys y pryderon ynghylch prinder tiwtoriaid; mecanweithiau cynllunio; ansicrwydd ar ôl y rownd ariannu gychwynnol.

Mynegodd HE ei bryder ei bod yn anodd newid pethau. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid ffurfio is-grŵp i edrych ar gyllid yn y dyfodol. Awgrymodd y gellid cysylltu â chanolfannau eraill. Awgrymwyd bod y Cyfarwyddwr yn trefnu cyfarfod unwaith y bydd wedi cychwyn yn ei swydd.

CYNLLUN STRATEGOL

5. Cytunwyd y byddai pob sefydliad yn anfon ei Gynllun Strategol at Ifor Gruffydd.

CYNLLUN MARCHNATA CENEDLAETHOL

6. Nid oedd y pwyllgor yn ymwybodol bod ymarfer brandio wedi cael ei gynnal. Mynegwyd pryderon y bydd cynnydd yn y twf yn costio £1 miliwn ac nad yw arian wedi cael ei glustnodi i dalu am hyn. Cytunwyd bod angen mwy o arian ar gyfer pethau eraill cyn Marchnata.

UNRHYW FATERION ERAILL

7. (i) Contract Trydydd Parti – Mynegwyd pryderon.
(ii) Strategaeth LlCC ar gyfer Blwyddyn 3 – mae angen mwy o wybodaeth, oes cyllid ar gyfer blwyddyn 3?

Cytunwyd y byddai Ann Jenkins yn cael ei gwahodd i'r cyfarfod nesaf.